

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Canllaw i'r broses ddeddfu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

Mai 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r canllaw hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

ebost: swyddfadeddfwriaeth@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Canllaw i'r broses ddeddfu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

Y pedwerydd Cynulliad

Mai 2011

Cynnwys

Rhagarweiniad **1**

Cefndir 1

Biliau yn y Cynulliad **2**

Beth yw Bil? 2

Cyflwyno Bil 2

Y broses o ystyried Bil Llywodraeth 2

Cyfnod 1 2

Cyfnod 2 3

Cyfnod 3 3

Cyfnod 4 3

Pasio Bil 3

Biliau eraill 4

Is-ddeddfwriaeth yn y Cynulliad **5**

Rhagarweiniad

1. Mae'r arweiniad hwn yn rhoi crynodeb o'r weithdrefn ar gyfer trafod Biliau a phasio Deddfau yn y Cynulliad.

2. Mae hefyd yn rhoi crynodeb o'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud a chraffu ar is-ddeddfwriaeth.

Cefndir

3. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") yn gwneud darpariaethau i'r Cynulliad wneud cyfreithiau, a elwir yn Ddeddfau'r Cynulliad.

4. Gall y Cynulliad wneud cyfreithiau ar nifer o wahanol bynciau, sydd wedi eu henwi yn Neddf 2006. Dyma'r pynciau hynny—

Amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig	Tai
Henebion ac adeiladau hanesyddol	Llywodraeth leol
Diwylliant	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Datblygu economaidd	Gweinyddiaeth gyhoeddus
Addysg a hyfforddiant	Lles cymdeithasol
Yr amgylchedd	Chwaraeon a hamdden
Gwasanaethau tân ac achub a hybu diogelwch rhag tân	Twristiaeth
Bwyd	Cynllunio gwlad a thref
Iechyd a gwasanaethau cyhoeddus	Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd
Priffyrdd a thrafnidiaeth	Y Gymraeg

5. Mae rhai materion o fewn y meysydd pynciau uchod sy'n parhau i fod tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Rhestrir yr 'eithriadau' hyn yn Neddf 2006.

Biliau yn y Cynulliad

Beth yw Bil?

6. Cyfraith ddrafft yw Bil. Ar ôl i Fil gael ei ystyried a'i basio gan y Cynulliad, a chael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines, daw'n 'Ddeddf y Cynulliad'.

7. Mae Deddf y Cynulliad yn gyfraith, a chaiff ei gorfodi ym mhob rhan o Gymru lle mae'n gymwys.

Cyflwyno Bil

8. Er mwyn i Fil gael ei ystyried gan y Cynulliad, rhaid iddo gael ei 'gyflwyno' i'r Cynulliad yn ffurfiol. Mae hyn y golygu y caiff y Bil ei gyflwyno i swyddogion y Swyddfa Gyflwyno, a fydd yn trefnu i'r Bil gael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad erbyn y diwrnod canlynol.

9. Caiff y rhan fwyaf o Filiau eu cyflwyno gan Weinidogion Llywodraeth Cymru ('Biliau'r Llywodraeth') ond gallant hefyd gael eu cyflwyno gan;

- un o bwyllgorau'r Cynulliad;
- Aelod unigol, os yw'n llwyddiannus mewn balot; neu
- Gomisiwn y Cynulliad.

10. Mae'n rhaid i Filiau fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac mae'n rhaid i'r Llywydd gyhoeddi datganiad fod gan y Cynulliad y pwer i wneud y Bil. Hefyd, mae'n rhaid i bob Bil gael Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag ef sy'n amlinellu'r amcanion polisi, manylion unrhyw ymgynghoriad sydd eisoes wedi ei gynnal mewn perthynas â'r Bil, amcangyfrif o'r costau o roi'r Bil ar waith ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

Y broses o ystyried Bil Llywodraeth

11. Fel arfer, ceir proses ag iddi bedwar cyfnod ar gyfer ystyried Bil Llywodraeth yn y Cynulliad—

Cyfnod 1

12. Mae'r cyfnod hwn yn cynnwys ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil gan bwyllgor (neu bwyllgorau), ac ar ôl hynny, mae'n rhaid i'r Cynulliad gytuno ar yr egwddorion cyffredinol.

13. Bydd y pwyllgor yn canolbwyntio ar brif ddiben(ion) y Bil, yn hytrach nag edrych ar y manylion (sy'n fater ar gyfer cyfnod diweddarach). Gall y pwyllgor hefyd wahodd sylwadau gan bartïon â diddordeb, a gall gymryd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar fel rhan o'i waith.

14. Ar ôl i'r pwyllgor gyflwyno ei adroddiad, gofynnir i'r Cynulliad drafod a chytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil – hon yw'r 'ddadl cyfnod 1'.

Cyfnod 2

15. Mae'r cyfnod hwn yn dilyn cwblhau cyfnod 1 ac mae'n cynnwys ystyriaeth fanwl, gan bwyllgor, o Fil ac unrhyw welliannau a gynigiwyd gan Aelodau'r Cynulliad;

16. Gall unrhyw Aelod Cynulliad gyflwyno gwelliannau i'r Bil, ac nid oes cyfyngiad ar nifer y gwelliannau y gellir eu cyflwyno. Fodd bynnag, dim ond aelodau'r pwyllgor sy'n gallu pleidleisio ar y gwelliannau. Daw'r cyfnod hwn i ben ar ôl i'r holl welliannau gael eu hystyried.

Cyfnod 3

17. Mae'r cyfnod hwn yn dilyn cwblhau cyfnod 2 ac mae'n cynnwys ystyriaeth fanwl, gan y Cynulliad, o'r Bil ac unrhyw welliannau a gyflwynwyd gan Aelodau'r Cynulliad.

18. Gall unrhyw Aelod gyflwyno gwelliannau i'r Bil, ond y Llywydd sydd yn penderfynu pa welliannau a gaiff eu hystyried gan y Cynulliad.

Cyfnod 4

19. Hwn yw cyfnod olaf y broses a bydd yn dilyn cwblhau cyfnod 3. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhelir pleidlais yn y Cynulliad i basio geiriad terfynol y Bil.

Pasio Bil

20. Os caiff Bil ei basio gan y Cynulliad yng nghyfnod 4, rhaid iddo gael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines cyn y daw'n gyfraith ffurfiol.

21. Os nad yw'r Cynulliad yn pasio'r Bil yn ystod cyfnod 4, mae'n syrthio ac ni chymerir unrhyw gamau ychwanegol yn ei gylch.

Biliau eraill

22. Gall un o bwyllgorau'r Cynulliad, Aelodau unigol neu Gomisiwn y Cynulliad hefyd gyflwyno Biliau ac, fel arfer, byddant yn dilyn gweithdrefn debyg i'r un a ddisgrifiwyd uchod.

23. Dim ond Aelodau unigol sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn balot sy'n gallu cyflwyno Biliau. Caiff balot ei gynnal yn rheolaidd gan y Llywydd. Er mwyn cael eu hystyried ar gyfer balot, mae'n rhaid i Aelodau yn gyntaf roi teitl y Bil y maent yn dymuno ei gyflwyno, ynghyd ag esboniad o amcanion polisi'r Bil.

Is-ddeddfwriaeth yn y Cynulliad

Beth yw is-ddeddfwriaeth?

24. Gelwir Deddfau'r Cynulliad a Deddfau Senedd y DU yn ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae 'is-ddeddfwriaeth' yn derm cyffredinol ar gyfer cyfreithiau a wneir o dan ddarpariaethau Deddf. Gelwir is-ddeddfwriaeth hefyd yn ddeddfwriaeth eilaidd neu ddirprwyedig neu'n offerynnau statudol.

25. Wrth basio Deddf, mae'r Cynulliad yn cymeradwyo ei hegwyddorion, ei hamcanion cyffredinol a manylion pwysig yn ei chylch. Fodd bynnag, bydd y Ddeddf fel arfer yn rhoi pwerau is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru neu gorff arall i wneud rheoliadau manwl neu gymell camau gweithredu penodol mewn perthynas â'r ffordd y caiff y brif gyfraith ei rhoi ar waith.

Sut y caiff is-ddeddfwriaeth ei gwneud?

26. Er y gall amryw o gyrff, yn cynnwys awdurdodau lleol a chyrff statudol eraill wneud is-ddeddfwriaeth, mae'r rhan fwyaf o'r is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Cynulliad yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru.

27. Mae tri phrif gategori o is-ddeddfwriaeth, yn dibynnu ar y weithdrefn a ddefnyddir i graffu ar yr is-ddeddfwriaeth a'i chymeradwyo. Dyma'r categorïau:

- Dim gweithdrefn – fe'i cyhoeddir fel arfer, a gofyn am gymeradwyaeth gan Weinidogion (neu eu swyddogion) yn unig a wna.
- Y weithdrefn penderfyniad negyddol – caiff ei chyhoeddi, ond, o fewn 40 diwrnod, gall y Cynulliad gytuno i ddirymu (canslo) y ddeddfwriaeth os yw Aelod yn cyflwyno cynnig i'r perwyl hwnnw.
- Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol – cyhoeddir drafft ohoni ac mae'n ofynnol i'r holl Gynulliad ei chymeradwyo cyn y gall ddod i rym.

28. O bryd i'w gilydd, ar gyfer deddfwriaeth neilltuol o bwysig neu gynhennus, defnyddir yr hyn a elwir yn weithdrefn **uwch-gadarnhaol**. Mae hon yn debyg i'r weithdrefn gadarnhaol ond bod iddi ofynion

ychwanegol o ran cyfnod ymgynghori cyn y gellir cyflwyno deddfwriaeth gerbron y Cynulliad.

Sut mae gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth yn digwydd?

29. Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn rhoi hawl i bwyllgor yn y Cynulliad gael hyd at 20 diwrnod i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n deillio o is-ddeddfwriaeth.

30. Mae'r Cynulliad cyfan bob amser yn cynnal dadl ar is-ddeddfwriaeth sy'n destun y weithdrefn gadarnhaol, ac mae'r Cynulliad cyfan hefyd yn gorfod ei chymeradwyo cyn y gall ddod i rym. Daw is-ddeddfwriaeth sy'n destun y weithdrefn negyddol i rym yn awtomatig oni bai bod Aelod Cynulliad yn gwneud cais bod y Cynulliad yn ei thrafod (drwy gyflwyno cynnig yn gofyn i'r ddeddfwriaeth gael ei dirymu).